


ADRODDIAD BLYNYDDOL



2011 – 2012



Cynnwys

Gair gan y Cadeirydd	2
Y Bwrdd Rheoli.....	4
Pwyllgor Eiddo a Thenantiaeth Antur Nantlle	7
Pwyllgor Diwydiant ac Economi Antur Nantlle	20
Diwedd glo.....	23
Cyfrifon Blynyddol Antur Nantlle Cyf 2011 – 2012	24

Gair gan y Cadeirydd

Unwaith eto mae'n bleser gen i fel Cadeirydd Bwrdd Rheoli Antur Nantlle gyflwyno'r Adroddiad Blynyddol am y flwyddyn 2011-2012. Dyma grynodeb o waith yr Antur yn ystod y flwyddyn ddiwethaf a hefyd adroddiad ar y sefyllfa ariannol. Eleni mae'r Antur yn dathlu ei ben blwydd yn 21 oed. Bellach, mae wedi hen sefydlu ei hun yn y Dyffryn ac yn falch o gael gwasanaethu er budd a lles yr ardal gan wneud ei ran i hybu gwaith a'r economi leol. Edrychwn ymlaen at gynnal ei gwasanaeth am flynyddoedd i ddod.

Yn y lle cyntaf hoffwn groesawu Robat Jones i'w swydd fel Prif Swyddog newydd yr Antur. Dilynodd yn esgidiau Beryl Fretwell roddodd wasanaeth clodwiw a ffyddlon iawn i'r Antur ers ei sefydlu. Mae Robat wedi bod efo ni ers dechrau'r flwyddyn ac wedi setlo i mewn i'r gwaith ac yn ymgymryd â'i ddyletswyddau'n hyderus ac effeithiol iawn. Rydym yn falch o weld ei fod wedi ymroi mor frwdfrydig i'w waith. Mae wedi dangos fod ganddo gryn gonsyrn am waith a dyfodol yr Antur ac edrychwn ymlaen at gael cyd-weithio ar yr amryfal brosiectau sydd ar waith.

Wynebodd yr Antur gryn gostau eleni eto i gynnal a chadw ein heiddo. Ond gwnaed hyn i gyd er budd a lles ein tenantiaid gan ein bod yn credu'n gryf mewn cynnig y cyfleusterau gorau iddynt gan gadw'r rhent mor rhesymol â phosib. Braf yw cael dweud fod perthynas dda iawn yn bodoli rhwng yr Antur a'r tenantiaid. Hefyd, mae'r Antur yn ymfalchio yn y ffaith ein bod yn rhoi'r gwaith 'cynnal a chadw' i fusnesau lleol ac mae hynny, ynddo'i hun, yn cefnogi'r economi leol gyda'r arian yn cylchdroi yn y gymuned. Er gwaethaf sefyllfa fregus yr economi a'r gwasgu sydd ar wariant yn gyffredinol mae'n galonogol gweld fod unedau'r Antur, ar wahân i ddwy, wedi eu rhentu ac mae yna geisiadau wedi dod i mewn am y rheiny hefyd.

Cofiwch fod Antur Nantlle yn dal i gynnig telerau arbennig i bobl ifanc lleol sydd yn awyddus i gychwyn busnes: gellir cael uned am ddau fis yn ddi-rent i roi cychwyn i'r fenter.

Gwnaed cryn symud ymlaen gyda'r Cynllun Hydro, er gwaethaf nifer o anawsterau, a gobeithiwn weld datblygiad cadarnhaol iawn yn o fuan. Rydym, hefyd yn ymchwilio i'r posibilrwydd o ddatblygu ar safle hen westy'r Victoria ym Mhenygroes. Dyma lecyn sy'n loes i'r llygad ac rydym yn awyddus iawn i newid y sefyllfa mor fuan â phosib.

Fel y gwelwch yn yr Adroddiad mae'r Antur yn ymwneud â nifer o brosiectau eraill hefyd a gobeithio y bydd datblygiadau pellach yn y dyfodol.

Mi fyddwn, fel Cadeirydd Bwrdd Rheoli'r Antur, yn hoffi gweld pobl ifanc y dyffryn yn ymddiddori mwy yng ngweithgareddau'r Antur a byddwn yn falch iawn o'u croesawu i'n Cyfarfod Blynyddol. Wedi'r cyfan hwy yw dyfodol parhad Dyffryn Nantlle fel cymuned.

Mae fy niolch yn fawr iawn i bawb sy'n ymwneud â'r Antur ac a gyfrannodd o'u hamser a'u doniau yn ystod y flwyddyn i hyrwyddo'r gwaith. Mae llawer o waith i'w wneud eto er budd a lles yr ardal a'i phobl.


Diolch yn fawr,

Ifan Glyn Jones
Cadeirydd

Y Bwrdd Rheoli



*Ifan Glyn Jones,
Cadeirydd*



*Emrys Jones,
Is-Gadeirydd*



OP Huws



Dafydd Owen



Talfryn Griffiths



John Pritchard



Gwynne Williams



Cyng. Dyfed Edwards



Elwyn Jones Griffith



Richard Wyn Huws



Myrddin Williams



Owain Rowlands



Cyng. Craig ab Iago



Gwion Owain

Aelodau'r Bwrdd Rheoli

Ifan Glyn Jones (Cadeirydd)

Emrys Jones (Is-gadeirydd)

O P Huws

Dafydd Owen

Talfryn Griffiths

John Pritchard

Gwynne Williams

Dyfed Wyn Edwards

Elwyn Jones Griffith

Richard Wyn Huws

Myrddin Williams

Owain Rowlands

Craig ab Iago

Gwion Owain

Cynghorydd Cymuned a Phrifathro wedi ymddeol

Prif Swyddog Tân Cynorthwyol wedi ymddeol

Cyn Gynghorydd Gwynedd a gŵr busnes

Cyfarwyddwr Gwasg Dwyfor

Cyfreithiwr

Cyfrifydd

Peiriannydd gwresogi

Arweinydd Cyngor Gwynedd

Cynghorydd Cymuned a Phrifathro wedi ymddeol

Gŵr camera proffesiynol a gŵr busnes

Swyddog Cyngor Gwynedd

Rheolwr Lleoliadau Digwyddiadau

Cynghorydd Gwynedd a Swyddog Prosiect Bwyd

Hunan gyflogedig

Cyfarfodydd

Cynhaliwyd 6 chyfarfod o Fwrdd Rheoli Antur Nantlle yn ystod y flwyddyn ynghyd a chyfarfodydd o'r Grŵp Cyllid a'r Panel Personél. Cyfarfu'r Pwyllgor Eiddo a Thenantiaeth, ac is-grwpiau'r Pwyllgor Diwydiant ac Economi sef y Grŵp Twristiaeth, y Grŵp Hydro a Grŵp y Fic yn gyson hefyd.

Cynhaliwyd y Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol ar 17^{eg} o Dachwedd 2011.

Yn unol â'r drefn ymddeolodd pedwar o gyfarwyddwyr o'r Bwrdd – Dafydd Owen, Elwyn Jones Griffith, Gwynne Williams ac Emrys Jones.

Ail etholwyd y pedwar.

Staff Antur Nantlle

Robat Jones

Bet Hughes

Nerys Jones

Nia Wyn Noone

Beryl Fretwell

Gwenllian Williams

Prif Swyddog Antur Nantlle

Gofalwraig y Ganolfan Dechnoleg

Gofalwraig y Ganolfan Fenter

Gofalwraig Tŷ Iorwerth

Swyddog Antur Nantlle (wedi ymddeol 30/03/2012)

Profiad Gwaith ar gyfer cwrs Gradd M.A.

Bancwyr

HSBC Cangen Caernarfon.

Ardal Antur Nantlle

Mae Antur Nantlle Cyf yn gweithredu yn ardal Dyffryn Nantlle a'r pentrefi cyfagos sy'n cynnwys:

Carmel, Clynnog fawr, Dinas Dinlle, Y Fron, Y Groeslon, Llandwrog, Llanllyfni, Nantlle, Nasareth, Nebo, Penygroes, Pontllyfni, Talysarn, Tanrallt.

Cyflawniadau 2011 - 2012

<i>Swyddi wedi eu creu neu eu gwarchod</i>	45
<i>Nifer wedi cael budd o'r gwasanaethau a gynigir</i>	2000
Nifer a dderbyniodd hyfforddiant	47
Mudiadau, cynlluniau a gweithgareddau cymunedol wedi cael cefnogaeth	14

Cyfarfod, Trafod a Chydweithio gyda

Cyngor Gwynedd, Partneriaeth Talysarn a Nantlle, Cyfeillion Cae'r Gors, Y Ganolfan Waith, Coleg Harlech / WEA, Prifysgol Cymru Bangor, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, Canolfan Cydweithredol Cymru, Llywodraeth y Cynulliad, Amgylchedd Cymru, Bwrdd yr Iaith, Grŵp Gwefan Dyffryn Nantlle, Mantell Gwynedd, Cymorth i Ferched Cymru, Cymdeithas Tai Eryri, Ysgol Dyffryn Nantlle, Heddlu Gogledd Cymru, Grŵp Llys Llywelyn, Grŵp Canolfan Cymdeithasol Talysarn, Gŵyl Fai Dyffryn Nantlle, Cyngor Cymuned Llanllyfni, Cyngor Cymuned Llanwnda, Pwyllgor Traeth Baner Las Dinas Dinlle, Dyffryn Nantlle 20:20, Menter Llyfni, Grŵp Mynd Amdani, Cylch, Grŵp Awyr Agored Antur Nantlle, Neuadd Goffa Penygroes, Annog Cyf, Parc Cenedlaethol Eryri, Coleg Meirion-Dwyfor a nifer o grwpiau a chymdeithasau eraill yn y gymuned.

Pwyllgor Eiddo a Thenantiaeth Antur Nantlle

(Cadeirydd – Emrys Jones)

Pwyllgor Eiddo a Thenantiaeth Antur Nantlle sy'n cadw llygad ar holl eiddo'r Antur, yn cynnal, cadw ac uwchraddio er mwyn sicrhau'r gwerth gorau am arian i'n tenantiaid. Dyma'r pwyllgor sy'n trin a thrafod ceisiadau am unedau'r Antur a braf yw adrodd fod y mwyafrif o'n hunedau a'n swyddfeydd yn parhau yn llawn.

Bu ychydig o newid yn ein tenantiaid eleni, gyda rhai yn ffarwelio ac eraill yn cael eu croesawu. Fel rhan o'n polisi i gefnogi menter yn yr ardal leol, bu'r Antur yn falch iawn o roi hwb i fusnesau newydd drwy roi dau fis o rent yn rhad ac am ddim iddynt.

Mae cyfraddau rhenti swyddfeydd ac unedau busnes yr Antur yn parhau i fod yn gystadleuol ac yn rhesymol iawn.

Rydym yn awyddus i gydweithio efo unrhyw gorff neu asiantaeth sy'n gweithredu i hybu menter a chreu cyfleon gwaith a hyfforddiant yn ardal Dyffryn Nantlle, felly mae ein hystafelloedd hyfforddiant a chyfarfod ar gael i unrhyw un sydd eisiau cynnal gweithgareddau o'r math yma.

Canolfan Dechnoleg Antur Nantlle

20 Heol y Dŵr, Penygroes, Gwynedd LL54 6LR

01286 882688 technoleg@anturnantlle.com



Yn y Ganolfan Dechnoleg mae prif swyddfa Antur Nantlle, sydd ar agor ar y llawr cyntaf rhwng 9yb – 5yp yn ddyddiol a lle mae croeso i unrhyw un alw heibio. Gwnaed buddsoddiad sylweddol eleni wrth i'r Antur, gyda chefnogaeth grant Gwella Tref gan Gyngor Gwynedd, uwchraddio blaen yr adeilad

Cafwyd newid mawr yn yr Antur eleni wrth i Beryl Fretwell ymddeol wedi ugain mlynedd o wasanaeth ffyddlon a diwyd i'r cwmni a'r ardal. Mae'r Antur yn hynod ddiolchgar i Beryl am ei holl waith ymroddgar a diflino er lles trigolion Dyffryn Nantlle, ac yn dymuno yn dda iawn iddi yn ei hymddeoliad.

Ar ddechrau'r flwyddyn newydd croesawyd Robat Jones yn Brif Swyddog newydd i'r cwmni. Mae Robat yn enedigol o Lanystumdwy ond wedi ymgartrefu yn Y Groeslon ers 10 mlynedd bellach ac yn hapus yn byw yno gyda'i wraig Sophie a'i blant Lois, Eifion a'r newydd ddyfodiad - Nansi. Mae Robat yn mwynhau gweithio er lles yr ardal a'i obaith yw adeiladu ar y gwaith da mae'r Antur wedi ei wneud dros y blynnyddoedd i ddod a mwy o gyfleon i ardal ddifreintiedig Dyffryn Nantlle.



Beryl Fretwell



Robat Jones

Roedd Canolfan Dechnoleg Antur Nantlle yn ddatblygiad arloesol yn 1990au – y cyntaf o'i fath yn yr ardal. Yn wir, yn seiliedig ar gynllun ein Canolfan Dechnoleg ni y sefydlwyd canolfannau dysgu gydol oes Cyngor Gwynedd. Dros y blynnyddoedd, gwelwyd newidiadau mawr mewn darpariaeth gyfrifiadurol a'r galw am wahanol fath o hyfforddiant yn y maes, felly bu i'r Antur (gyda chymorth gwerthfawr Cyngor Gwynedd) uwchraddio'r cyfrifiaduron i gyd er mwyn cynnig y gwasanaeth gorau posib.

Unwaith eto eleni fe gynhaliwyd amrywiol gyrsiau yn yr ystafell hyfforddiant. Diolch i Goleg Harlech / WEA am gydweithio ers y cychwyn cyntaf hyd heddiw i gynnig darpariaeth safonol o hyfforddiant cyfrifiadurol ym Mhenygroes. Cynhaliwyd cyrsiau cyfrifiadurol sylfaenol yma yn ogystal â chysiau i rai mwy profiadol, ynghyd a sesiynau Hel Achau drwy gynllun Cam Ymhellach sy'n gynllun rhad ac am ddim drwy lyfrgelloedd Gwynedd. Yn ogystal, gwnaed defnydd o'r cyfleusterau i gynnal amryw o gyrsiau ar gyfer Tai Eryri, SPAR ac Annog Cyf, ac mae cynlluniau yn eu lle i gynnig cyrsiau dysgu Cymraeg yma yn y dyfodol agos.

Diolch i Adran TG y Cyngor am wasanaethu ein rhwydwaith gyfrifiaduron ac i'r Ddesg Gymorth am drefnu a gofalu fod y neges yn eu cyrraedd.

Mae modd llogi'r ystafell hyfforddiant, yn ogystal â chymryd mantais o'n gwasanaeth newydd sef 'desg boeth' (hot desking), am bris rhesymol.

Rydym yn parhau i fod yn bwynt ailgylchu papur o bob math a chetris cyfrifiaduron drwy ddefnyddio gwasanaeth Antur Waunfawr.

Diolch yn fawr i Bet Hughes am gadw swyddfeydd y Ganolfan Dechnoleg, y Llyfrgell a Siop 22 yn lân ac yn dwt bob amser.

Llyfrgell Penygroes

Llyfrgellydd - Siwsan Broda

01286 880427 LLPenygroes@gwynedd.gov.uk

Er ein bod mewn dyddiau o brinder arian a son parhaus am doriadau yng nghyllid y gwasanaethau cyhoeddus, mae staff y Gwasanaeth Llyfrgell yn gweithio'n galed i sicrhau bod y gwasanaeth i ardal Dyffryn Nantlle yn parhau yn gyfoes gyda llyfrau newydd yn cyrraedd y Llyfrgell yn wythnosol.

Mae yma ddigon o gyfrifiaduron at ddefnydd y gymuned yn ddi-dâl sy'n golygu nad oes rhaid i neb golli allan.

Mae croeso i bawb ddod draw i weld beth yw'r arlwy, mae yma rywbeth at ddant pawb - llyfrau safonol ar bob pwnc, cylchgronau misol, llyfrau i'r ifanc a chornel arbennig i'r plant lle ceir amser stori a chrefftau ar amseroedd penodol.



Siwsan Broda, y Llyfrgellydd newydd



*Gwenllian Williams,
y cyn-Lyfrgellydd*

Yn ystod y flwyddyn, bu i ni ffarwelio â Gwenllian Williams

o'i swydd fel Llyfrgellydd Penygroes. Mae Gwenllian wrthi yn gweithio'n galed ar ei chwrs gradd M.A. a dymunwn yn dda iddi gyda'i hastudiaethau a'i gyrfa yn y dyfodol.

Pleser yw croeso Siwsan Broda fel Llyfrgellydd newydd Penygroes, a da yw gweld y brwdfrydedd amlwg sydd ganddi at ei gwaith fel ei rhagflaenydd yn y swydd. Mae nifer o ddisgyblion lleol yn dod i'r Llyfrgell i ymchwilio a gwneud eu gwaith cartref tu allan i oriau ysgol, gan wybod y cânt bob cymorth gan Siw.

Erbyn heddiw mae modd llogi gemau cyfrifiadur yn y Llyfrgell am bris teg, a cheir bob math o wybodaeth am ddigwyddiadau lleol ar y byrddau gwybodaeth tu mewn.

Swyddfa Adfywio Bro Gwyrfa Nantlle, Cyngor Gwynedd

Swyddog Adfywio Bro – Kelvin Roberts

01286 882968 kelvinroberts@gwynedd.gov.uk

Mae Kelvin wedi bod yn Swyddog Adfywio dros fro Dyffryn Nantlle ers 8 mlynedd erbyn hyn. Nod y cynllun Adfywio Bro yw cefnogi pobl leol i gyfrannu tuag at adfywio eu cymunedau trwy brosiectau economaidd, cymunedol, amgylcheddol a chymdeithasol.

Dros y flwyddyn ddiwethaf mae Kelvin wedi parhau i roi cefnogaeth i nifer helaeth o grwpiau, pwyllgorau a sefydliadau lleol drwy roi cyngor; helpu yn ymarferol i baratoi cynlluniau, dogfennau cymdeithasu a cheisiadau grant; a chydweithio efo adrannau Cyngor Gwynedd i sicrhau fod Dyffryn Nantlle yn elwa cymaint â phosib o unrhyw ddatblygiadau.




Mae'r Antur yn ddiolchgar iawn iddo am ei gymorth i'n cynlluniau Twristiaeth, Ynni Adnewyddol Hydro, Diwydiant ac Economi, Y Fic a mwyr.

Os oes gennych chi syniad gwyh i wella eich cymuned a diddordeb sefydlu menter gymunedol newydd, neu os ydych yn ymwneud â menter gymunedol sydd angen cefnogaeth, cysylltwch â Kelvin. Mae ei arbenigedd yn ei faes wedi helpu nifer o sefydliadau i sefydlu, datblygu a ffynnu er lles yr ardal leol.

Canolfan Fenter Dyffryn Nantlle

Ffordd Llanllyfni, Penygroes, Gwynedd LL54 6DB



Dyma gartref cyntaf yr Antur ac yma bu'r Swyddogion yn gweithio rhwng 1991 a 1999 pryd y symudwyd i'r Ganolfan Dechnoleg. Mae'r unedau bychain ar y safle wedi gweld amrywiaeth hynod o fusnesau bach yn mynd a dod ers amser agor y Ganolfan ac wedi bod yn llawn i gyd bron ers hynny.

Mae'r ystafell gyfarfod ar gael i'w llogi i gwmnïau ac asiantaethau allanol ar gyfer cyfarfodydd, cyrsiau ayb. am bris rhesymol.

Yn yr unedau heddiw mae modd prynu nwy potel a thrwsio eich offer torri gwair gan gwmni Torwoods yn Uned 1, trin a llogi peiriannau 'mini diggers' gan Iolo Humphreys yn Uned 2, prynu rhannau a nwyddau ceir yn ogystal â thorri goriadau yn Celtic Auto Parts yn Unedau 3, 4 a 5, llogi a thrwsio systemau PA gan CS Audio yn Unedau 6 a 7, a phrynu offer pysgota gan Castnets yn y Swyddfa.

Braf iawn yw cael adrodd fod digon o amrywiaeth a bwrlwm fel arfer felly yn y Ganolfan Fenter.



Joe Spooner, Torwoods



Emma, Celtic Auto Parts



Castnets

Siop / Gweithdy, 35 Stryd yr Wyddfa, Penygroes LL54 6NG

Oriel Llun-Mewn-Ffram

01286 882056 meic@orielllunmewnffram.co.uk



Mae siop Meical Roberts, sef Llun Mewn Ffrâm, wedi dod yn un o brif atyniadau Penygroes a Dyffryn Nantlle, gyda phobl yn teithio yma o bell i weld ei arddangosfeydd o waith celf gwreiddiol a phrintiau o waith rhai o artistiaid cyfoes gorau Cymru fel William Selwyn, Stephen John Owen, Aneurin Jones, Keith Bowen, Keith Andrew, Carys Bryn a Diane Williams.

Mae Meical hefyd yn cefnogi artistiaid lleol drwy eu hannog i ddangos eu gwaith yn yr oriel ac mae hefyd yn gwerthu nifer o greffttau, gwaith coed a llechi, cardiau cyfarch, crysau, cerddoriaeth Gymreig, hwdis a mwyl.



Dyma'r lle i fynd am wasanaeth fframio o safon uchel heb son am y croeso a phaned sydd wastad ar gael gan Meical.



Cofiwch alw heibio - chewch chi mo'ch siomi!

Fflat, 35 Stryd yr Wyddfa, Penygroes LL54 6NG



Gyda'r sefyllfa dai bresennol mor ddyrys, mae'r Antur yn falch iawn o allu cynnig cartref i berson lleol yn ein fflat ar Stryd yr Wyddfa.

Wedi ei adnewyddu i safon uchel yn ystod Haf 2010, mae'r fflat wedi bod mewn defnydd cyson ac yn le braf a chyfleus iawn i fyw.

Gwnaed ychydig o waith cynnal a chadw ar yr adeilad yn ystod y flwyddyn, i sicrhau ein bod yn parhau i ddarparu cartref o safon i'n tenant.

'Siop 22'

10 Heol y Dŵr, Penygroes, Gwynedd LL54 6LR

Mae adeilad 10 Heol y Dŵr ym Mhenygroes wedi ei leoli mewn man canolog yn y pentref ac yn cynnwys tair swyddfa ar y llawr uchaf a Siop ar y llawr gwaelod. Mae Antur Nantlle yn falch o'r cyfle i gadw'r adeilad at ddefnydd busnes.



Eleni, codwyd wal a gosod giât newydd o flaen yr adeilad er budd ein tenantiaid ac maent hwythau wedi bod yn brysur yn addurno ac uwchraddio eu swyddfeydd i safon uchel. Mae Siop 22 werth ei gweld, felly cofiwch alw heibio i weld beth sydd ar gael yno.

Swyddfa 1 / Y Siop

Bu i ni ffarwelio â chwmni Matom a fu'n denantiaid ers rhai blynnyddoedd yn Swyddfa 1 wrth iddynt symud i swyddfeydd mwy ym Mharc Menai, Bangor. Dymunwn y gorau iddynt yn eu cartref newydd a diolchwn iddynt am fod yn denantiaid mor dda i ni dros y blynnyddoedd.

Newyddion da i'r Antur ac i ardal Dyffryn Nantlle oedd na fu'r swyddfa yn wag yn hir iawn, gan i ferch leol - Rhian Roberts, newid y swyddfa yn ôl yn siop ac agor siop flodau a chrefftau newydd yma. Calonogol iawn yw gweld busnes yn buddsoddi a mentro ar adeg fel hyn. Mae'r siop werth ei gweld gydag amryw o wahanol flodau ffres ar gael bob dydd. Dymunwn yn dda i Rhian wrth iddi wasanaethu'r cyhoedd drwy gynnig amryw o wasanaethau yn cynnwys priodasau, angladdau, dathliadau a llawer mwy.



Rhian a'r teulu ar ddiwrnod agoriadol y siop flodau

Ffoniwch Tusw ar 01286 882188 i drafod eich anghenion.

Swyddfa 2

Busnes newydd arall sydd wedi ei sefydlu yn yr ardal ers blwyddyn erbyn hyn yw cwmni Mark Roberts o'r Groeslon, sef Ymgynghori MARC Consultancy. Mae Mark yn darparu cyngor strategol ac economaidd i fusnesau ac yn brofiadol iawn wedi gweithio fel Swyddog, Rheolwr ac Uwch Reolwr gyda nifer o wahanol asiantaethau yn cynnwys Awdurdod Datblygu Cymru, Cyngor Bwrdeistrefol Arfon a Llywodraeth Cynulliad Cymru.


Mae'n arbenigo ar ddarparu cyngor economaidd a strategol, ac fel 'hogyn Dyffryn Nantlle' mae'n falch o gael gweithio yn ei ardal ei hun.

Am gymorth gyda'ch busnes, ffoniwch Ymgynghori MARC Consultancy ar 01286 882677.

Swyddfa 4

Ein tenant yn Swyddfa 4 yw Justin Davies, sy'n rhedeg cwmni Dylunio Gringo Design. Mae Justin yn arbenigwr ar greu gwaith graffeg o bob math a phan nad yw'n perfformio gydag aelodau eraill ei fand - Gwibdaith Hen Fran, mae'n darparu gwaith brandio, deunyddiau marchnata, argraffu, gwefannau a gwaith dylunio o'r safon uchaf i'w gleientiaid.

Cysylltwch â Dylunio Gringo Design ar 01286 882561 neu post@gringodesign.co.uk gyda'ch anghenion – mi fyddwch yn falch eich bod wedi gwneud hynny.



Justin Davies, a swyddfa 4 ar ei newydd wedd

Y Barics

Nantlle, Caernarfon, Gwynedd LL54 6BD

Hen 'farics' yn perthyn i Chwarel Penyrsedd oedd Y Barics ers talwm ond erbyn heddiw wedi eu troi yn unedau at ddefnydd y gymuned a busnesau bychain.

Cawsom gryn wariant eleni wrth i ni ail-arwynebu'r maes parcio. Roedd yr hen wyneb wedi dirywio dros amser er i ni ei gynnal yn rheolaidd, ond daeth yn amser rhoi arwyneb newydd arno er budd ein tenantiaid ac mae wedi gwneud gwahaniaeth mawr. Roedd hyn oll yn ychwanegol i'r gwaith cynnal a chadw arferol mae'r Antur yn ei wneud yn Y Barics bob blwyddyn.



Rydym wedi croesawu Sion Llwyd Williams, bachgen lleol sydd wedi sefydlu busnes newydd sef ATP – Arbenigwr Trwsio Peiriannau i Uned 1. Mae Sion wrthi yn brysur yn tyfu ei fusnes trwsio peiriannau garddio.

Canolfan Llys Llywelyn yn Uned 2 yw canolbwynt bywyd cymdeithasol pentref Nantlle gyda chriw prysur yn trefnu bob math o weithgareddau sydd yn dod â'r gymuned at ei gilydd.

Peter a Wendy Midwinter gyda 'Railways Unlimited' sydd yn Uned 3, sef cwmni yn trwsio, gwerthu a threfnu arddangosfeydd o drenau bach.

Yn Uned 4 mae Dyfrig Peris a Jennie Corr yn rhedeg cwmni Peris a Corr; arbenigwyr mewn argraffu crysau-T a thecstilau organig. Mae'r cwmni yn cynnig gwasanaeth argraffu â sgrin hefo inciau dwr - argraffu ar grysau T, bagiau cynfas ayyb. Maent hefyd yn cynllunio tecstilau a chardiau cyfarch eu hunain, ac mae'r holl waith papur a chardiau cyfarch yn cael eu hargraffu ar bapur wedi'i ailgylchu.



Cysylltwch â Dyfrig a Jennie ar 01286 881787 neu gwybodaeth@perisandcorr.com.



Esiaml o waith argraffu organig cyfoes Peris & Corr

Wedi cynnal astudiaeth dichonoldeb ar sefydlu llety ymwelwyr a chanolfan gweithgareddau awyr agored yn Y Barics, mae'r Antur wrthi yn edrych ar gynllun uned wyliau yn Uned 5.

Ein nod yw darparu lle o safon uchel i ymwelwyr aros a'n gobaith yw bydd modd ehangu a datblygu'r cynllun ymhellach yn y dyfodol er mwyn creu cyfleon gwaith ac yn sylfaen i'r diwydiant twristiaeth yn Nyffryn Nantlle.



Tŷ Iorwerth

39 Heol y Dŵr, Penygroes, Gwynedd LL54 6ES



Roedd dau lawr uchaf adeilad banc yr HSBC wedi bod yn wag ers blynyddoedd ac yn dirywio, hyd nes yn 2002 gwelodd Antur Nantlle gyfle i ddiwallu rhywfaint o'r gofyn am swyddfeydd yn lleol trwy chwilio am gyllid i brynu'r adeilad gan yr HSBC ac addasu'r ddau lawr uchaf yn saith swyddfa safonol i'w gosod sydd yn cyd-fynd a chanllawiau mynediad i'r anabl.

Erbyn heddiw mae'r swyddfeydd i gyd yn llawn a banc yr HSBC yn dal i weithredu ar y llawr isaf.

Y Banc

Mae gwasanaeth holl bwysig yr HSBC ar gael yn y pentref yn ddyddiol, wedi i'r Antur sicrhau parhad y banc ym Mhenygroes drwy gynnig rhent rhesymol. Gobaith pawb, yn drigolion ac yn fusnesau, ydyw y bydd y gwasanaeth yma am flynyddoedd i ddod gan fod y banc yn adnodd mor allweddol i drigolion a busnesau lleol.

Mae'r banc ar agor bob bore dydd Mawrth, dydd Iau a dydd Gwener rhwng 9.30yb – 12.00yp, a bob pŵn dydd Llun a dydd Mercher rhwng 12.30yp – 3.00yp.



Swyddfeydd 1-4

Llinell Gymorth Camdriniaeth yn y Cartref a Thrais Rhywiol Cymru Gyfan



Rhai o staff y llinell gymorth

O'u canolfan ym Mhenygroes mae'r llinell gymorth trais yn y cartref yn cynnig gwasanaeth cyfrinachol dwyieithog 24 awr y dydd i ferched, plant a dynion drwy Gymru gyfan.

Mae'r Llinell yn helpu ac yn arwain pobl sydd â phrofiad o gamdriniaeth yn y cartref neu drais rhywiol, yn ogystal â'r rheiny sydd angen mynediad at wasanaethau megis cyngor, cefnogaeth frys, diogelwch a gwybodaeth am eu hawliau a'u hopsiynau.

Bydd pawb sy'n galw Llinell Gymorth Camdriniaeth yn y Cartref a Thrais Rhywiol Cymru Gyfan yn cael gwasanaeth o'r safon uchaf bob tro gan wybod cânt drafod eu pryderon yn hollol gyfrinachol.

Mae'r gwasanaeth ar gael yn rhad ac am ddim drwy ffonio 0808 8010800.

Swyddfa 5

Cymuned

Mae Cymuned yn fudiad sy'n gweithio o blaid cymunedau Cymru ac yn denant i Antur Nantlle ers mis Hydref 2011.



Swyddfa 6

Cris Jones

Cris Jones sydd yn Swyddfa 6 yn cynnig gwasanaethau cyfieithu.

Mae Cris yn gwneud gwaith cyfieithu o bob math ac yn cynnig telerau rhesymol a gwasanaeth prydlon bob tro.

Ffoniwch Cris gyda'ch anghenion cyfieithu ar 01286 880444.



Swyddfa 7

Ymgyrch Cefnogi Nicaragua Cymru

Ben Gregory ac Ymgyrch Cefnogi Nicaragua Cymru yw ein tenant yn Swyddfa 7.



Sefydlwyd yr ymgyrch ym 1986 i gefnogi pobl Nicaragua gyda eu dymuniad am fywyd gwell mewn amgylchiadau mor galed, ac mae'n parhau i weithio i gefnogi trigolion y wlad hyd heddiw.

Fel rhan o'r gweithgareddau bu Ben yn brysur gyda hwy eleni, ar ddechrau mis Medi siaradodd mewn cynhadledd ryngwladol a drefnwyd gan Gymdeithas yr Iaith. Rhannodd lwyfan gyda siaradwyr o Gymru, Gwlad y Basg, Cataluyna, Cwrdistan a Cholombia a rhoddodd sgwrs am hawliau tir pobl gynhenid Nicaragua.

Pwyllgor Diwydiant ac Economi Antur Nantlle

(Cadeirydd – Dafydd Owen)

Is-grwpiau'r pwyllgor yma sydd yn cyfarfod i drin a thrafod cynlluniau economaidd a chwilio am brosiectau newydd er budd Dyffryn Nantlle. Mae hi'n gyfnod anodd, sydd wedi gweld lleihad mewn grantiau sylweddol i gwmnïau fel yr Antur ond mae'r drafodaeth yn mynd yn ei blaen a'r dyhead am weld gwelliant economaidd i Ddyffryn Nantlle yn dal i sbarduno. Yr ydym yn barod i drafod hefo unrhyw un sydd â diddordeb mewn ymuno a ni neu sydd â gweledigaeth ac yn barod i weithio o'i wirfodd er lles yr ardal.

Mae tri phrif grŵp yn edrych ar gynlluniau ar hyn o bryd, sef y Grŵp Hydro, y Grŵp Twristiaeth a Grŵp y Fic.

Grŵp Ynni Adnewyddol Hydro Antur Nantlle (Cadeirydd – Dafydd Owen)

Gyda'r llywodraeth yn annog grwpiau cymunedol i weithredu cynlluniau i leihau ôl troed carbon ac i roi ystyriaeth i'r newid yn yr hinsawdd fe sefydlwyd Grŵp Ynni Adnewyddol Antur Nantlle er mwyn canolbwyntio ar brosiectau yn y maes yn Nyffryn Nantlle.

Mae Dyffryn Nantlle yn ardal fynyddig sy'n cael digon o law ac o'r herwydd nid oes prinder dŵr yma, felly penderfynodd y Grŵp Ynni edrych yn fanylach ar ffyrdd o gynhyrchu ynni gwyrdd drwy ddefnyddio dŵr o afon fechan leol.

Derbyniwyd cymorth Cronfa Cynaliadwyedd Cyngor Gwynedd i wneud ymchwiliad desg ar yr afon fechan er mwyn canfod y posibiliadau. Cychwynnwyd ar y broses o drafod gyda'r tîrfeddianwyr, Asiantaeth yr Amgylchedd, Parc Cenedlaethol Eryri a Chyngor Gwynedd a chafwyd canlyniadau digon addawol i symud ymlaen i'r cam nesaf o baratoi astudiaeth lawn.



Gyda chefnogaeth grant Cronfa Datblygu Gwirfoddol Cyngor Gwynedd, comisiynwyd cwmni Dulas i gwblhau Astudiaeth Dichonoldeb llawn ac ar yr un pryd ariannodd yr Antur Astudiaeth Bryophytes er mwyn darganfod effaith posib y cynllun hydro ar blanhigion prin, pysgod, llygod dŵr ayb.

Cyflwynwyd cais llwyddiannus am arian Ynni'r Fro i baratoi Astudiaeth Archeolegol o'r safle, ac erbyn rŵan rydym bron yn barod i baratoi a chyflwyno cais cynllunio, trwydded tynnu dŵr, cais i Ofgem a

chais i gysylltu â'r grid trydanol cenedlaethol. Mae pob cam yn y prosesau hyn yn cymryd amser ac nid gorchwyl hawdd ydyw datblygu'r cynllun gan fod rheolau gwlad wedi eu newid ar hyd y ffordd.

Ond bydd cwblhau'r cynllun hwn yn dod a budd economaidd positif trwy gynhyrchu refeniw i'r Antur, diogelu swyddi, cynorthwyo busnesau lleol trwy baratoi mannau gwaith rhesymol, creu swydd ychwanegol oddi mewn i'r Antur, arwain at ddatblygu cynlluniau economaidd eraill yn y dyfodol fydd yn gatalydd i greu mwy o swyddi a hefyd sefydlu cronfa grant leol i hybu busnesau newydd i gychwyn yn yr ardal.

Mae llawer o waith caled wedi ei wneud yn barod i'r cynllun hwn a llawer iawn o waith o'n blaenau eto ond mae'r Grŵp Hydro wedi ymrwymo i'r prosiect ac yn llawn hyder y byddant yn gallu denu digon o fuddsoddiad ariannol i weld gwireddu'r cynllun cyffrous ac amserol hwn er budd cymuned Dyffryn Nantlle.

Grŵp Twristiaeth Antur Nantlle ***(Cadeirydd – O.P. Huws)***

Mae'r Antur yn ymwybodol iawn o'r diffyg mewn adnoddau a chyfleon i ddenu twristiaid i Ddyffryn Nantlle. Teimlwn fod gan yr ardal cymaint i'w chynnig ac mae llawer o amser y Grŵp wedi ei dreulio yn trin a thrafod cynlluniau posib. Yn y gorffennol rydym wedi comisiynu Astudiaeth ar Dwristiaeth yn Nyffryn Nantlle, Astudiaeth Dichonoldeb ar sefydlu Cynllun Llety Ymwelwyr a Chanolfan Gweithgareddau Awyr Agored Dyffryn Nantlle a thrafod datblygu Gweithgareddau Awyr Agored hefo grŵp a diddordeb yn yr ardal.

Mae'r holl weithgareddau yma wedi bod yn hynod o ddefnyddiol, ac wedi arwain at y ddealltwriaeth fod yn rhaid cael canolfan i fod yn fan cychwyn i'r diwydiant twristiaeth yn y Dyffryn.

Eleni, mae'r grŵp wedi bod yn cydweithio gyda chwmnïau a sefydliadau eraill i adnabod safle a gweld os oes modd cydweithio er mwyn datblygu canolfan o'r fath yn y Dyffryn, a'n gobaith mawr yw bydd modd cyrraedd y nod yma yn fuan.

Grŵp Y Fic

Mae problem y Fic yn peri gofid i holl drigolion yr ardal ers blynnyddoedd. Mae cyflwr yr adeilad yn dirywio bob dydd, ac oherwydd lleoliad y Fic mae'n cael effaith negyddol ar Ddyffryn Nantlle gyfan.

Eleni, rydym wedi gweithio ar gynllun cyffrous yn cyfuno twristiaeth, defnydd masnachol a chymunedol, a'n gobaith yw i'w ddatblygu ar



safle'r Fic er budd economaidd i Ddyffryn Nantlle ac i roi diwedd ar broblem y Fic unwaith ac am byth.

Rydym wedi llwyddo i sicrhau cefnogaeth ariannol i baratoi astudiaeth dichonoldeb, ac yn dilyn proses tendro wedi rhoi'r gwaith i gwmni lleol profiadol sy'n rhannu ein pryderon am y Fic ac yn frwdfrydig iawn tuag at y prosiect.

Mae cyflwr presennol Y Fic yn rhwystr i unrhyw ddatblygiad llwyddiannus yr ardal, a'n gobaith mawr yw gall yr astudiaeth ddichonoldeb adnabod cynllun cynaliadwy y bydd modd i ni weithredu arno we lles yr ardal.

Unigolyn preifat sy'n byw dramor sydd berchen ar yr adeilad erbyn hyn, ac mae llawer o waith o'n blaenau eto ond rydym yn byw mewn gobaith bod modd datrys problem y Fic yn y dyfodol agos.

Diwedd glo

Mae'r Antur yn gweithredu am yr ail flwyddyn hefo un swyddog, ond mae ein gobaith o fedru cynnig swyddi ychwanegol eto o fewn y cwmni yn y dyfodol yn parhau. Drwy ddatblygu prosiectau newydd ein gobaith yw gallu cynnig cyflogaeth yn uniongyrchol yn ogystal â chreu cyfleon eraill yn lleol fel canlyniad i'r prosiectau hynny drwy ysgogi pobl i fentro eu hunain.

Yr un yw nod yr Antur ers ei sefydlu yn ôl yn 1991, sef datblygu cynlluniau ddaw a gwelliannau economaidd a chymdeithasol i Ddyffryn Nantlle. Wrth gwrs mae gennym gyfrifoldebau eraill erbyn hyn sef gwarchod ein hadeiladau a'n tenantiaid - a chan fod ein ffiniau oddi mewn i ardal Dyffryn Nantlle mae'r gwaith hwn llawer yn haws a ninnau yn un teulu mawr.

Edrychwn ymlaen at y flwyddyn o'n blaenau. Gobeithio cawn wireddu ein cynllun Hydro a datblygu cynllun i hybu'r diwydiant twristiaeth yn yr ardal, yn ogystal â datrys problem Y Fic.

Mae'r Antur yn barod i wrando a chydweithio felly os oes gan unrhyw un syniadau neu'n chwilio am bartner i wireddu cynllun yn yr ardal cofiwch gysylltu â ni - mae'r drws ar agor i unrhyw un sydd am weithio er lles y'r ardal hon.



Yr Wyddfa o Lyn Nantlle

Cyfrifon Blynyddol Antur Nantlle Cyf 2011 – 2012

ANTUR NANTLLE CYF.

Rhif Y Cwmni : 2618216

CYFRIFON AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU MAWRTH 31, 2012

**A. HUGHES JONES DYSON A'U CWMNI
CYFRIFWYR SIARTREDIG
CAERNARFON**

ANTUR NANTLLE CYF.

Cynnwys	Tudalen
Adroddiad y Cyfarwyddwyr	1
Datganiad O Gyfrifoldebau'r Cyfarwyddwyr	2
Adroddiad Yr Archwilwyr	3
Cyfrif Incwm a Gwariant	4
Mantolen	5
Nodiadau	6 - 7
Cyfrif Incwm a Gwariant Manwl	8

ANTUR NANTLLE CYF.
Adroddiad Y Cyfarwyddwyr Am Y Flwyddyn Yn Diweddu Mawrth 31, 2012

Mae'r Cyfarwyddwyr yn cyflwyno eu hadroddiad blynyddol ynghyd a'r cyfrifon am y flwyddyn yn diweddu Mawrth 31, 2012.

Prif Weithgareddau

Prif weithgaredd y cwmni yw hybu gweithgareddau sydd er lles economaidd, cymdeithasol ac yr amgylchedd yn Dyffryn Nantlle.

Aelodau'r Bwrdd Rheoli

Aelodau'r Bwrdd Rheoli yn ystod y flwyddyn oedd:

Owen Pennant Huws

Talfryn Griffiths

John Pritchard

Dafydd Owen

Elwyn Jones Griffith

Dyfed Wyn Edwards

Gwynne Williams

Ifan Glyn Jones

Richard Wyn Huws

Emrys Jones

Myrddin Williams

Craig ap Iago

Gwion Owain

Owain Rowlands

Datganiad O'r Datgeliad Gwybodaeth i'r Archwilwyr

Cyn belled a mae'r Cyfarwyddwyr yn ymwybodol, nid oes unrhyw wybodaeth sydd yn berthnasol i'r archwiliad (fel diffiniwyd gan Adran 418 o Ddeddf Cwmnïau 2006) nad yw archwilwyr y Cwmni yn ymwybodol ohono, ac mae pob cyfarwyddwr wedi cymeryd y camau y dylent fel cyfarwyddwyr i wneud eu hunain yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth berthnasol i'r archwiliad ac i sefydlu y bod archwilwyr y Cwmni yn ymwybodol o'r wybodaeth yma.

Archwilwyr

Mae A. Hughes Jones Dyson a'u Cwmni wedi datgan eu parodrwydd i barhau yn eu swydd.

Mae'r adroddiad wedi cael ei baratoi ar sail y darpariARTHau arbennig sydd yn Rhan VII o Ddeddf Cwmnïau 2006 yn ymwneud a cwmnïau bach.

Dyddiad: 19-7-2012


 Drwy orchymyn y bwrdd

ANTUR NANTLLE CYF.
Datganiad O Gyfrifoldebau'r Cyfarwyddwyr

Mae'r Cyfarwyddwyr yn gyfrifol am baratoi adroddiad y Cyfarwyddwyr ar datganiadau ariannol sy'n cydymffurfio gyda'r gyfraith a rheolau perthnasol.

O dan y Ddeddf Cwmnïau y mae yn ofynnol i'r Cyfarwyddwyr baratoi cyfrifon pob blwyddyn. O dan y ddeddf mae'r Cyfarwyddwyr wedi ethol i baratoi y datganiadau ariannol yn unol a Safonau Cyfrifyddol y Deyrnas Unedig (Arferion Cyfrifyddol sydd yn Gyffredinol Dderbyniol o fewn y Deyrnas Unedig). O dan gyfraith cwmnïau ni ddyliau y Cyfarwyddwyr gymeradwyo y datganiadau ariannol onid eu bod wedi eu bodloni eu bod yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa'r cwmni ac o'r gweddill neu'r diffyg am y cyfnod. Wrth baratoi'r datganiadau ariannol mae'n ofynol i'r cyfarwyddwyr:

- ddewis polisiau cyfrifyddol priodol a'u defnyddio'n gyson;
- gwneud dyfarniadau ac amcangyfrifon rhesymol;
- datgan os yw'r polisiau cyfrifyddol wedi eu dilyn, neu datgelu ac esbonio unrhyw ymadawiad materol yn y cyfrifon;
- paratoi'r cyfrifon ar y sail busnes byw os nad ydyw hi yn amhriodol i dybio fydd y cwmni yn parhau mewn busnes.

Mae cyfarwyddwyr yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddol sy'n dangos safle ariannol y cwmni a'u galluogi i sicrhau fod y cyfrifon yn cydsynio efo Deddf Cwmnïau 2006. Maent hefyd yn gyfrifol am ddiogelu asedau'r cwmni ac felly yn gyfrifol am rwystro a datgelu twyll ac unrhyw afreoleidd-dra arall.

Dyddiad:

19-7-2012



Drwy orchymyn y bwrdd

Adroddiad Yr Archwilwyr Annibynnol At Aelodau Antur Nantlle Cyf.

Rydym wedi archwilio datganiadau ariannol Antur Nantlle Cyf am y flwyddyn yn diwedd Mawrth 31 2012 ar dudalennau 4 i 7. Mae'r datganiadau ariannol wedi eu paratoi yn unol a'r Safon Adrodd Ariannol i Unedau Llai (effeithiol Ebrill 2008), ac o dan y confensiwn cost hanesyddol ac yn ol y polisiau cyfrifyddol a restrir.

Mae'r adroddiad hwn wedi ei greu i aelodau y cwmni, fel corff, ac yn unol a Pennod 3, Rhan 16 o Ddeddf Cwmnïau 2006.

Mae ein gwaith archwilio wedi ei ymgymryd fel y gallwn adrodd i aelodau'r cwmni y materion hynny y mae'n ofynnol i ni adrodd iddynt mewn adroddiad archwilwyr ac i ddim pwrpas arall.

Hyd at yr eithaf a ganiatei'r trwy gyfraith, nid ydym yn derbyn na chymryd cyfrifoldeb i unrhyw un heblaw'r cwmni ac aelodau'r cwmni fel corff am ein gwaith archwilio, am yr adroddiad hwn, nac am y farn yr ydym wedi ei ffurfio.

Cyfrifoldebau'r Cyfarwyddwyr Ac Archwilwyr

Mae cyfrifoldebau'r cyfarwyddwyr am baratoi y datganiadau ariannol yn unol a rheolau cyfreithiol

a Safonau Cyfrifyddol y Deyrnas Unedig (Arferion Cyfrifyddol sydd yn Gyffredinol Dderbyniol o fewn y Deyrnas Unedig) wedi eu mynegi yn y datganiad o gyfrifoldebau'r Cyfarwyddwyr.

Ein cyfrifoldeb ni yw archwilio'r cyfrifon yn unol a gofynion cyfreithiol a rheolau perthnasol a Safonau Archwilio Rhyngwladol (Y Deyrnas Unedig ac Iwerddon). Mae'r safonau yma yn gofyn i ni gydymffurfio gyda safonau moesegol i archwilwyr sydd wedi eu penodi gan y Bwrdd Ymarferion Archwilio.

Sail yr archwiliad or datganiadau ariannol

Mae archwiliad yn cynnwys cael tystiolaeth berthnasol i'r symiau a'r datgeiliadau yn y cyfrifon sy'n ddigonol i roi sicrwydd rhesymol fod y datganiadau ariannol yn rhydd o gam-ddatganiadau sylweddol, a fyddai wedi'u achosi gan dywyll neu gamsyniad. Mae hyn yn cynnwys asesiad o'r; amcangyfrifon a'r barnau arwyddocaol a wnaed gan y cyfarwyddwyr wrth baratoi'r cyfrifon gan ystyried a yw'r polisiau cyfrifyddol yn briodol i amgylchiadau'r cwmni, ac yn cael e'u gweithredu'n gyson a'u datgelu'n ddigonol; yn ogystal a gwedd gyffredinol y datganiadau ariannol. Yn ogystal, rydym yn darllen y gwybodaeth ariannol ac arall yn adroddiad y cyfarwyddwyr er mwyn datgelu unrhyw anghysondeb sylweddol i'r cyfrifon rydym yn eu harchwilio. Os i ni ddod ar draws anghysondeb neu gam-ddatganiad sylweddol, mi fyddwn yn ystyried y goblygiadau ar gyfer ein adroddiad.

Barn ar y datganiadau ariannol

Yn ein barn mae'r cyfrifon yn:

- rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa'r cwmni ar Fawrth 31, 2012 ac o'r gweddill ar gyfer y flwyddyn oedd yn terfynu y pryd hynny;
- wedi eu paratoi yn unol ac Arferion Cyfrifyddol sydd yn Gyffredinol Dderbyniol o Fewn y Deyrnas Unedig sy'n berthnasol i Unedau Llai; ac
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol ag amodau Deddf Cwmnïau 2006.


Barn ar faterion a benodwyd gan Ddeddf cwmnïau 2006

Yn ein barn mae'r wybodaeth a roddir yn Adroddiad Y Cyfarwyddwyr am y flwyddyn ariannol sy'n berthnasol i'r flwyddyn mae'r datganiadau ariannol wedi eu paratoi yn gyson gyda'r datganiadau ariannol.

Materion mae'n orfodol i ni adrodd arnynt mewn eithriad

Nid oes gennym ddim i'w adrodd ar y materion canlynol ble mae'r Ddeddf Cwmnïau 2006 yn ein gofyn i ni adrodd i chi os yn ein barn:

- nad yw'r cwmni wedi cadw cofnodion cyfrifyddol digonol, neu nid ydym wedi derbyn yr holl wybodaeth ac eglurhad oddiwrth ganghenau nad ydym wedi ymweld a hwy; neu
- nid yw'r datganiadau ariannol yn gytun ar cofnodion ariannol; neu
- bod datguddiadau sy'n ofynol dan gyfraith cwmnïau yn berthnasol i enillion cyfarwyddwyr heb eu datgelu; neu
- nid ydym wedi derbyn yr holl wybodaeth ac eglurhad sydd ei angen er mwyn cwblhau ein archwiliad; neu
- nid oedd y cyfarwyddwyr yn deilwng i baratoi'r cyfrifon ac Adroddiad y Cyfarwyddwyr yn unol a rheolau cwmnïau bach.


Mr Brian Hughes (Prif Archwiliwr Statudol)
 ar ran A. Hughes Jones Dyson a'u Cwmni
 Archwilwyr Statudol a Cyfrifwyr Siartredig
 Bryn Afon, Segontium Terrace, Caernarfon, Gwynedd LL55 2PN

Dyddiad: 19-7-2012

ANTUR NANTLLE CYF.
Cyfrif Incwm A Gwariant Am Y Flwyddyn Yn Diweddu Mawrth 31, 2012

	Nodiadau	Gweithrediadau Parhaol 2012	Gweithrediadau Parhaol 2011
		£	£
Incwm		75,487	75,281
Gwariant		<u>(75,647)</u>	<u>(87,218)</u>
Incwm Sy'n Weddill	2	(160)	(11,937)
Llog Derbyniadwy		<u>59</u>	<u>60</u>
Diffyg Cyn Trethiant		(101)	(11,877)
Trethiant	3	<u>(12)</u>	<u>-</u>
Diffyg Ar Ol Trethiant		(113)	(11,877)
Gweddill Ddygwyd Ymlaen		<u>120,279</u>	<u>132,156</u>
Gweddill Cariwyd Ymlaen		<u>120,166</u>	<u>120,279</u>

ANTUR NANTLLE CYF
Mantolen Ar Fawrth 31, 2012

	Nodiadau	2012		2011	
		£	£	£	£
Asedau Sefydlog					
Asedau Cyffyrddadwy	4		300,343		323,358
Asedau Cyfredol					
Dyledwyr	5	6,572		13,584	
Arian Yn Y Banc Ac Mewn Llaw		<u>94,256</u>		<u>85,057</u>	
		100,828		98,641	
Credydwy: symiau sy'n ddyledus o fewn y flwyddyn	6	<u>(9,712)</u>		<u>(8,719)</u>	
Asedau Cyfredol Net			<u>91,116</u>		<u>89,922</u>
Cyfanswm Asedau Llai					
Rhwymedigaethau Cyfredol			391,459		413,280
Croniadau Ac Incwm Gohiriedig	7		(271,293)		(293,001)
			<u>120,166</u>		<u>120,279</u>
Cronfeydd			<u>120,166</u>		<u>120,279</u>

Mae'r cyfrifon wedi cael eu paratoi ar sail y darpariaethau arbennig sydd o fewn Rhan 15 o Ddeddf Cwmiau 2006 yn ymwneud a cwmnïau bach ac yn unol a'r Safon Adrodd Ariannol i Unedau Llai (effeithiol Ebrill 2008).

Ian Glyn Jones Cyfarwyddwr I. G. JONES

S. M. Pritchard Cyfarwyddwr J. M. PRITCHARD

19-7-2012 Dyddiad

Rhif Cwmni: 2618216

ANTUR NANTLLE CYF.
Nodiadau i'r Cyfrifon Am Y Flwyddyn Yn Diwedd Mawrth 31, 2012

1 Polisiau Cyfrifyddol

Y sail gyfrifyddol

Mae'r datganiadau ariannol wedi eu paratoi o dan y confensiwn cost hanesyddol ac yn unol a'r Safon Adrodd i Unedau Llai. (Effeithiol Ebrill 2008)

Asedau sefydlog cyffyrddadwy

Fe gynhwysir asedau sefydlog cyffyrddadwy yn ol eu cost.

Fe ddibrisir yr asedau dros amcangyfrifiad o'u hoes economaidd defnyddiol fel a ganlyn:

Tir ac adeiladau - 4% o'r gost pob blwyddyn
 Offer - 20% drwy'r dull mantol yn lleihau
 Cyfrifiaduron - 25% drwy'r dull mantol yn lleihau

Grantiau

Mae grantiau sy'n ymwneud ag asedau sefydlog yn cael eu gosod mewn cyfrif incwm gohiriedig. Fe ryddheir swm yn flynyddol i'r cyfrif Incwm a Gwariant sy'n cyfateb i'r dibrisiant a ddarparwyd ar gyfer yr asedau perthnasol.

2 Incwm Sy'n Weddill

Mae'r incwm sy'n weddill ar ol;

	2012	2011
	£	£
<i>Rhoi credyd am;</i>		
Incwm Gohiriedig a ryddhawyd	<u>21,708</u>	<u>24,787</u>
<i>Ac ar ol codi am:</i>		
Dibrisiant	25,253	28,805
Archwilio	<u>1,850</u>	<u>1,800</u>

3 Treth Gorfforaeth

	£	£
Darpariaeth am y Flwyddyn	<u>12</u>	<u>-</u>

ANTUR NANTLLE CYF.

7

4 Asedau Sefydlog Cyffyrddadwy

	Tir Rhydd-ddaliad		
	Ac Adeiladau	Offer	Cyfanswm
	£	£	£
Cost			
Ar Ebrill 1af 2011	605,713	22,323	628,036
Ychwanegiadau	-	2,238	2,238
Ar Fawrth 31 2012	<u>605,713</u>	<u>24,561</u>	<u>630,274</u>
Dibrisiant			
Ar Ebrill 1af 2011	284,743	19,935	304,678
Codiant am y flwyddyn	24,228	1,025	25,253
Ar Fawrth 31 2012	<u>308,971</u>	<u>20,960</u>	<u>329,931</u>
Gwerth Ar Bapur Net			
Ar Fawrth 31 2012	<u>296,742</u>	<u>3,601</u>	<u>300,343</u>
Ar Fawrth 31 2011	<u>320,970</u>	<u>2,388</u>	<u>323,358</u>

5

Dyledwyr	2012	2011
	£	£
Dyledwyr Eraill	2,648	2,154
Rhagdaliadau ac incwm a gronwyd	<u>3,924</u>	<u>11,430</u>
	<u>6,572</u>	<u>13,584</u>

6

Credydwyr: symiau sy'n ddyledus o fewn y flwyddyn	£	£
Credydwyr eraill	6,583	6,840
Treth Gorfforaeth	12	-
TAW	<u>3,117</u>	<u>1,879</u>
	<u>9,712</u>	<u>8,719</u>

7

Croniadau Ac Incwm Gohiriedig	£
Ar Ebrill 1af, 2011	293,001
Swm a Rhyddhawyd	21,708
Ar Fawrth 31, 2012	<u>271,293</u>

ANTUR NANTLLE CYF.
Cyfrif Incwm A Gwariant Am Y Flwyddyn Yn Diweddu Mawrth 31, 2012

	2012		2011	
	£	£	£	£
Incwm				
Gwasanaethau		6,107		4,483
Rhent Canolfan Fenter		13,789		12,587
Rhent Swyddfeydd		36,013		34,630
Rhent Stryd y Wyddfa		7,716		5,598
Rhent Llyfrgell		6,000		6,125
Hysbysu ar y Wefan		737		1,033
Grantiau prosiectau		2,468		2,898
Rhoddion		-		5,533
Incwm Arall		<u>2,657</u>		<u>2,394</u>
		75,487		75,281
Gwariant				
Grantiau Cyfalaf Yn Cael Eu Rhyddhau	(21,708)		(24,787)	
Cyflogau	37,852		30,430	
Costau Pensiwn	1,083		1,235	
Costau Swyddfa	2,094		1,559	
Llogi Offer	468		650	
Costau wefan	1,208		1,418	
Ffon	952		927	
Hysbysebu	1,184		594	
Costau Cynnal A Chadw	7,421		27,571	
Gwres a Goleuo	6,267		8,410	
Trethi	1,271		1,689	
Yswiriant	5,865		5,786	
Costau Archwilio	1,850		1,800	
Costau Proffesiynol	3,298		400	
Costau Banc	300		324	
Manion	989		407	
Dibrisiant Ar Adeiladau	24,228		24,228	
Dibrisiant Ar Offer	<u>1,025</u>		<u>4,577</u>	
		75,647		87,218
(Diffyg) am y flwyddyn		<u>(160)</u>		<u>(11,937)</u>



Canolfan Dechnoleg Antur Nantlle
20 Heol y Dŵr
Penygroes
Gwynedd
LL54 6LR

01286 882688

post@anturnantlle.com

www.anturnantlle.com

www.facebook.com/anturnantlle

